



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 3: wythnos 01/02/2021

Cynnydd Wythnosol (25 Ionawr - 1 Chwefror)

Rydym yn hynod falch o'n timau brechu sy'n gweithio'n eithriadol o galed i weinyddu brechiadau mor ddiogel a chyflym â phosibl. Y cleifion sy'n cael eu brechu yw'r rhai sy'n gymwys o fewn grwpiau 1-4 y JCVI. Rydym yn disgwyl cwblhau'r rhain erbyn canol mis Chwefror.

Hyd yma rydym wedi brechu dros 75,220 o bobl ar draws ein Bwrdd Iechyd.



Rydym wedi cynnig brechlynnau i'r holl staff a phreswylwyr o'n cartrefi gofal oedolion hŷn sy'n ddiogel i wneud hynny ac mae'r rhai nad ydym wedi gallu eu cyrraedd eto yn cael eu hasesu'n barhaus. Rydym wedi brechu dros 77.1% o bobl 80 oed a hŷn a thros 17,747 o staff rheng flaen, 4,314 o weithwyr gofal cymdeithasol, yn ogystal â brechu 12,371 o bobl 75-79 oed.

Yr wythnos ddiwethaf, bu i ni gwblhau cynlluniau i gyflwyno'r brechlyn i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ ac sy'n gymwys yn unol â grwpiau blaenoriaeth y JCVI. Byddwn yn defnyddio timau o Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu ac unedau symudol. Byddwn yn cysylltu â chleifion i roi gwybod iddynt bod y tîm yn dod i roi eu brechlyn iddynt.

Cydweithio



Un o elfennau allweddol llwyddiant cyflwyno rhaglen frechu mor enfawr yw gweithio gyda phartneriaid a'u cefnogaeth aruthrol.

Eglurodd Angharad Collins, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, eu bod wedi dod â 24 o wirfoddolwyr i mewn, yn cynnwys cyfuniad o

staff ac ymddiriedolwyr, sydd wedi dod oddi ar ffyrlo i gynorthwyo gyda'r rhaglen frechu. Mae eu cymorth yn y ganolfan frechu dorfol yng Nghwm-brân wedi bod yn amhrisiadwy. Mewn pythefnos yn unig, gwirfoddolwyd cyfanswm o 810 awr. Dywedodd Angharad "Edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi. Mae wedi bod yn brosiect gwych i fod yn rhan ohono".

Cyfanswm y bobl
wedi'u brechu yn
ardal ein Bwrdd Iechyd
(hyd at 01/02/2021)

75,220

**Ffigyrau Brechu
Wythnosol**
(25 Ionawr - 1 Chwefror)

**Cartrefi Gofal i Oedolion
Hŷn (staff a
phreswylwyr)** 6,570

**Staff Iechyd
Rheng Flaen** 17,747

**Pobl dros
80 oed** 77.1%

**Nifer y
Canolfannau
Brechtu Torfol Ar Agor** 5

**Nifer y
Meddygfeydd
Meddyg Teulu sy'n
darparu'r brechlyn** 72

**Nifer y
brechlynnau
a roddwyd mewn
Meddygfeydd Meddyg Teulu** 22,288

Yr Wythnos Sydd i Ddod (1-8 Chwefror)

Yr wythnos hon, rydym wedi cynllunio cyflenwad o 43,000 o frechlynnau ac rydym wedi agor canolfan frechu arall yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn. Byddwn hefyd yn dechrau brechu'r cleifion cymwys hynny sydd yn yr ysbyty a'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ.

Bydd gweddill y rhai sy'n 80 oed a hŷn nad ydynt wedi cael eu brechu eto yn cael eu gwahodd i'w apwyntiad brechlyn gan eu meddygfa. Os ydych yn 80 oed a hŷn a heb gael gwahoddiad i gael apwyntiad, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu.

Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch pa bryd y gallwch ddisgwyl eich gwahoddiad ar gyfer eich ail ddos yn cael ei chyhoeddi yn y diweddariad yr wythnos nesaf.

RHYBUDD SGAM brechu

Rydym yn ymwybodol o nifer o negeseuon e-bost brechu 'sgam' sy'n cylchredeg, gan honni eu bod o'r GIG.

Ni fydd y GIG byth yn gofyn am daliad; gofyn am eich manylion banc; cyrraedd eich cartref yn ddirybudd; neu ofyn am gopiâu o ddogfennau personol fel eich pasbort.

Nifer Uchel o Alwadau

Ar hyn o bryd mae ein canolfan archebu brechlynnau yn profi nifer eithriadol o uchel o alwadau ac ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a rhwystredigaeth y mae hyn yn ei achosi. Mae ein timau'n gweithio i gynyddu capasiti galwadau a datrys unrhyw broblemau.

Os cewch apwyntiad, gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol gan na fyddwn yn gallu cynnig dewis arall, ac eithrio'r bobl hynny sydd wedi'u cofrestru'n gaeth i'r tŷ.

Peidiwch â chysylltu â'r ganolfan archebu na'ch meddygfa os nad ydych wedi derbyn llythyr apwyntiad eto.

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan:
<https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

Ffigyrau ar gyfer yr wythnos sydd i ddod (1-8 Chwefror)

Cyflenwad brechlynnau ar gyfer yr wythnos hon **43,000**

Trefn Brechlynnau

Pobl dros 80 oed	Cael eu cwblhau gan Feddygon Teulu
72-79 oed	Canolfannau Brechu Torfol
70-71 oed	Meddygon Teulu
Hynod Fregus Yn Glinigol	Meddygon Teulu
Yn Gaeth i'r Tŷ	Timau Symudol



Mae Meddygfeydd Meddygon Teulu ar draws ardal y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n eithriadol o galed i frechu miloedd o gleifion.

Dywedodd Helen, Dirprwy Reolwr Practis Meddygfa Grŵp Bellevue yng Nghasnewydd fod ei thîm "yn teimlo'n gyffrous iawn i fod yn gwneud y brechlynnau. Mae'r cleifion wedi bod yn hynod o hapus a diolchgar".

Roedd un o'u cleifion, Malcolm (yn y llun uchod) wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar gyda Covid-19. Ei apwyntiad brechu oedd ei dro cyntaf allan o'i dŷ ers dychwelyd adref. Dywedodd "Mae'n rhaid i ni gael y brechlyn yn y gobaith y bydd yn ein helpu yn y dyfodol a gweddill ein teuluoedd a phawb arall"